General Medical Council

Fforwm Cynghori'r DU - Cymru

Nodyn crynodeb o'r cyfarfod - 5 Hydref 2022

Yn bresennol o'r GMC:

- Y Fonesig Carrie MacEwen, Cadeirydd y GMC (Cadeirydd)
- Charlie Massey, Prif Weithredwr y GMC
- Steve Burnett, Aelod Cyngor, Cymru
- Astrid Etherington, Cymrawd Clinigol
- Sara Moseley, Pennaeth GMC Cymru
- Robert Khan, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Materion Cyhoeddus a Swyddfeydd Cenedlaethol
- Neil Roberts, Cyfarwyddwr Adnoddau a Noddwr Cymru
- Kate Liddell, Rheolwr Polisi a Materion Allanol Cymru
- Marged Wiliam, Swyddog Polisi a Materion Allanol Cymru (nodiadau)

Mynychwyr Allanol:

- Dr Jacinta (Jaz) Abraham, Cyfarwyddwr Meddygol, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a Chadeirydd, Grŵp Cyfarwyddwyr Meddygol Cymru Gyfan
- Rodney Berman, Uwch Weithredwr Polisi, BMA Cymru
- Dr Iona Collins, Cadeirydd, BMA Cymru
- Darren Hughes, Cyfarwyddwr, Conffederasiwn GIG Cymru
- Alun Jones, Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Dr Phil Kloer, Cyfarwyddwr Meddygol a Dirprwy Brif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ac Arweinydd Cymru, y Gyfadran Arweinyddiaeth a Rheolaeth Feddygol
- Yr Athro Push Mangat, Cyfarwyddwr Meddygol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Dr Kenneth McKeegan, Cyfarwyddwr Rhaglen Meddygaeth Mynediad i Raddedigion, Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe
- Dr Heather Payne, Uwch Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru
- Dr James Read, Deon Addysg Feddygol, Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd

Mae'r GMC yn elusen gofrestredig yn
Lloegr ac yng Nghymru (1089278)
a'r Alban (SC037750).

- Dr Abrie Theron, Academi Colegau Brenhinol Meddygol Cymru
- Dave Thomas, Cyfarwyddwr Archwilio, Archwilio Cymru
- Helen Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Arwain ac Olyniaeth, Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Richard Tompkins, Cyfarwyddwr, Cyflogwyr GIG Cymru
- Olwen Williams, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Arweinyddiaeth Glinigol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Croeso a Chyflwyniad y Cadeirydd

1 Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i'r cyfarfod rhithwir, gan rannu ei siom nad oeddem yn gallu cyfarfod wyneb yn wyneb oherwydd streiciau trên. Diolchodd yn ffurfiol i Kamila Hawthorne am ei chyfraniad i UKAF ac i addysg feddygol yn Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe wrth iddi ddechrau yn ei rôl fel Cadeirydd nesaf Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu. Croesawodd y Cadeirydd Kenny McKeegan, Cyfarwyddwr Rhaglen Meddygaeth Mynediad i Raddedigion, a fydd yn cynrychioli Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe yn UKAF ar ôl ymadawiad Kamila.

2 Croesawodd y Cadeirydd Heather Payne, Uwch Swyddog Meddygol, ar ran Dr Chris Jones, DCMO, a Dr James Read, Deon Addysg Feddygol newydd Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd ar ran yr Athro Steve Riley. Croesawodd hefyd Iona Collins, Cadeirydd newydd Cyngor Cymreig y BMA i'w chyfarfod UKAF cyntaf a mynegodd ofid nad oedd unrhyw gynrychiolwyr cleifion ar gael i fynychu y tro hwn.

3 Croesawodd y Cadeirydd Olwen Williams a Jaz Abraham a wahoddwyd i gyflwyno ochr yn ochr â Phil Kloer ar raglenni arweinyddiaeth yng Nghymru. Nododd y rhai a oedd yn bresennol fod ffocws y cyfarfod ar arweinyddiaeth feddygol a'r rôl bwysig y mae arweinyddiaeth dda yn ei chwarae wrth gefnogi'r gweithlu. Amlygodd y Cadeirydd ein cynnig data ac eglurodd y byddai Neil Roberts yn rhannu mewnwelediadau gweithlu allweddol y GMC.

Camau gweithredu o gyfarfod blaenorol UKAF

4 Rhannodd Sara Moseley, Pennaeth GMC Cymru, ddiweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfod ddiwethaf a gynhaliwyd wyneb yn wyneb ar 9 Mehefin 2022. Dywedodd Sara ein bod wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar gefnogi diwylliannau tecach a gwneud cyfraniad ymarferol at y nod hwn yn ogystal â rhannu gwersi, data a mewnwelediadau. Fel rhan o hyn, amlygodd Sara ein gwaith i dreialu rhaglen anwytho well ar gyfer graddedigion meddygol

rhyngwladol (IMG). Roedd y rhaglen hon yn bwrpasol i Fyrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chwm Taf Morgannwg a chafwyd adborth cadarnhaol iawn. Y bwriad yw parhau i ddysgu a mireinio a'i gyflwyno fesul cam i fyrddau iechyd eraill.

5 Yna nododd Sara waith rydym wedi ei dreialu gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i atgyfnerthu dealltwriaeth o sut y gall ein data, mewnwelediadau, safonau, a chanllawiau gefnogi newidiadau mewn diwylliant ac ymarfer a chynyddu diogelwch cleifion. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'r tîm arweinyddiaeth feddygol, y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol, a'r Bwrdd cyfan. Yn berthnasol i ffocws UKAF ar arweinyddiaeth, soniodd Sara hefyd am ei chyflwyniad ochr yn ochr â Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol, ac Alun Jones, Prif Weithredwr, AGIC, yng nghynhadledd y Gyfadran Arweinyddiaeth a Rheolaeth Feddygol (FMLM), yng Nghymru lle buont yn archwilio sut y gall safonau rymuso arweinyddiaeth feddygol.

Diweddariad gan y Prif Weithredwr

6 Dywedodd Charlie Massey y byddwn yn cyhoeddi *Cyflwr addysg ac ymarfer meddygol 2022: adroddiad gweithlu* (SoMEP) ym mis Hydref a fydd yn helpu i lywio a dylanwadu ar benderfyniadau yn ymwneud â'r gweithlu. Tynnodd sylw at y cynnydd sylweddol yn nifer yr IMGau fel canfyddiad allweddol.

7 Cyfeiriodd Charlie hefyd at Bapur Diweddaru Cymru a rannwyd gydag aelodau UKAF cyn y cyfarfod. Tynnodd sylw at ein gwaith gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (AIGC) i gyflwyno fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Nododd benderfyniad yr AIGC i gwblhau drafft o'r Gorchymyn cydymaith anesthesia yn gyntaf a fydd yn ffurfio templed ar gyfer y ddeddfwriaeth ddilynol ar gyfer diwygio rheoleiddio meddygon a phroffesiynau iechyd a gofal eraill. Soniodd fod y Farwnes Eluned Morgan, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, mewn cyfarfod cyn UKAF, wedi cytuno i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Iechyd yn AIGC i bwysleisio pwysigrwydd gweithredu cyflym ar ddiwygio rheoleiddio.

8 Cyfeiriodd Charlie hefyd at yr adolygiad o *Arfer meddygol da* a'r ffocws ar arweinyddiaeth a gweithio mewn tîm yn y drafft ymgynghori.

Cyflwyniad GMC - Neil Roberts, Cyfarwyddwr Adnoddau a Noddwr Cymru

9 Rhannodd Neil ganfyddiadau allweddol adroddiad SoMEP 2022. Esboniodd ein bod yn falch o ddefnyddio'r cyfarfod hwn fel cyfle i dynnu sylw at ein canfyddiadau allweddol cyn cyhoeddi a

allai gynorthwyo ein rhanddeiliaid yng Nghymru i fynd i'r afael â bylchau, heriau a chynllunio'r gweithlu ar gyfer y dyfodol.

10 Dengys ein data fod y gweithlu meddygol yng Nghymru yn tyfu, a bod ei gyfansoddiad yn newid. Tynnodd Neil sylw at ddibyniaeth gynyddol ar recriwtio meddygon o dramor a bod nifer y meddygon Arbgenigwyr, Arbegnigwyr Cyswllt ac Arbenigedd (SAS) a Meddygon a Gyflogir yn Lleol (LE) wedi rhagori ar hyfforddeion yng Nghymru. Pwysleisiodd y goblygiadau sylweddol y bydd y newidiadau hyn yn eu cael ar gyfer hyfforddiant, anwytho, a chynllunio'r gweithlu, a nododd y bydd hyn yn cyflwyno heriau a chyfleoedd yng Nghymru.

11 Yna gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i rannu eu sylwadau a'u myfyrdodau:

- **Meddygon SAS/LE** - Cydnabu'r aelodau fod y twf mewn meddygon SAS/LE yn cael ei yrru'n bennaf gan y cynnydd mewn IMGau a nodwyd y rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth sicrhau rolau sy'n gofyn am gofrestriad arbenigol neu feddygon teulu. Bu peth trafodaeth hefyd am y rôl y gallai meddygon SAS ei chwarae yn y dyfodol wrth ddarparu gofal sylfaenol a chymunedol o ystyried yr angen i gryfhau'r maes hwn a'r bwriad i symud gofal yn nes at y cartref. Dywedodd Prifysgol Caerdydd ei bod yn bwriadu edrych ar yr holl lwybrau gyrfa ar gyfer eu myfyrwyr a nododd nad yw llwybrau gyrfa llinol bellach yn arferol. Yna trafododd yr aelodau bwysigrwydd rhoi llais i feddygon SAS trwy, er enghraifft, diwtoriaid SAS, eiriolwyr a hyrwyddwyr. Nododd Dr Jamie Read ei fod yn feddyg SAS - y cyntaf yn y DU i gael ei benodi'n Ddeon Addysg Feddygol - ac yn arweinydd SAS ar gyfer Coleg Brenhinol y Meddygon, a'i fod yn gefnogol iawn i ymagwedd fwy hyblyg.
- **Cefnogaeth i IMGau** - Nodwyd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi cyfweld â grŵp o IMGau a meddygon o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn ddiweddar fel rhan o barhau i wella cefnogaeth a dealltwriaeth. Holwyd y meddygon hyn am eu profiadau o'r broses recriwtio, anwytho, asesiad cychwynnol, a chymorth tymor hwy. Soniodd meddygon o bob lefel am brofiadau anodd tebyg wrth gyrraedd.
- **Hiliaeth yn y gweithle** - Mae hiliaeth a wynebir gan feddygon o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, o ficro-ymddygiad i sylwadau ac ymddygiad difrïol gan gleifion a chydweithwyr, yn parhau i fod yn broblem fawr. Cytunodd yr Aelodau bod yn rhaid i reolwyr ddefnyddio dull dim goddefgarwch, yn enwedig wrth i weithlu Cymru ddod yn fwy amrywiol o ran ethnigrwydd. Nodwyd hefyd bwysigrwydd hyfforddiant gwylwyr gweithredol a mentora o chwith i fynd i'r afael â hiliaeth yn y gweithle.
- **Patrymau gwaith** - Tynnodd yr Aelodau sylw at yr angen i ystyried tueddiadau tuag at weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio llai nag amser llawn yn gynyddol, gan fynd ar drywydd cyfleoedd cyflogaeth i weddu i ffyrdd o fyw, a rhoi mwy o werth ar

gydbwysedd bywyd a gwaith. Bydd y patrymau gwaith newidiol hyn yn cael effaith ar wasanaethau.

- **Diwygiadau cytundebol -** Nodwyd bod angen i newidiadau yn y gweithlu, gan gynnwys sefydlu'r radd arbenigol newydd, gael eu hadlewyrchu yn y ffordd yr ydym yn cyflogi meddygon.

Cyflwyniad allanol - Olwen Williams, AaGIC; Jaz Abraham, Grŵp Cyfarwyddwyr Meddygol Cymru Gyfan; Phil Kloer, Cyfadran Arweinyddiaeth a Rheolaeth Feddygol

Olwen Williams, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Arweinyddiaeth Glinigol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru

12 Dechreuodd Olwen gyda cyflwyniad yn Gymraeg. Yna esboniodd Olwen y cysyniadau o arweinyddiaeth ac ymddygiad tosturiol. Nododd fod y rhain yn llinynnau allweddol yn *Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru*, ac yn y broses o ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr clinigol.

13 Yna tanlinellodd Olwen bwysigrwydd ymagwedd aml-broffesiynol at arweinyddiaeth a chynwysoldeb ac awgrymodd y dylem asesu rhinweddau arweinyddiaeth yng nghyd-destun gwerthuso a datblygiad personol. Rhoddodd drosolwg o'r gwaith sy'n mynd ymlaen yn genedlaethol i ddatblygu arweinyddiaeth feddygol.

Dr Jacinta (Jaz) Abraham, Cyfarwyddwr Meddygol, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre a Chadeirydd, Grŵp Cyfarwyddwyr Meddygol Cymru Gyfan

14 Disgrifiodd Jaz arweinyddiaeth feddygol yng Nghymru fel gofod cydweithredol, gan gyfeirio at drafodaethau gydag AaGIC a GMC Cymru ar sut y gall safonau rymuso arweinyddiaeth feddygol a sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar y claf pan fyddwn dan bwysau. Nododd hefyd fod cyfleoedd i alinio syniadau a gwerthoedd i fod yn fwy strategol.

15 Yna galwodd Jaz am fuddsoddiad mewn arweinyddiaeth feddygol a gwaith i gysylltu a defnyddio'r systemau sydd eisoes yn eu lle. Nododd fomentwm ar gyfer gweithredu y gallwn adeiladu arno a galwodd am ystyried sut y gallwn ddod at ein gilydd i ddatblygu cymuned arweinyddiaeth yng Nghymru. Nododd waith sydd eisoes ar y gweill ymhlith Cyfarwyddwyr Meddygol.

Dr Phil Kloer, Cyfarwyddwr Meddygol a Dirprwy Brif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ac Arweinydd Cymru, y Gyfadran Arweinyddiaeth a Rheolaeth Feddygol

16 Pwysleisiodd Phil fod arweinyddiaeth wrth wraidd pethau pan fyddant yn mynd o chwith, ac yn iawn. Rhannodd ei brofiad ei hun o deimlo'r angen i gael ei 'ailweirio' i ddod yn arweinydd a nododd fod llawer o feddygon yn amharod i gydnabod eu hunain fel arweinwyr. Dywedodd fod arnom angen arweinwyr gobeithiol gyda synnwyr o realaeth gan fod pethau, ac yn parhau i fod, yn galed iawn ar lawr gwlad. Amlinellodd y gynhadledd FMLM ddiweddar yng Nghymru a oedd yn cynnwys sesiwn, a ddatblygwyd gyda'r GMC, ar sut y gall safonau gefnogi a siapio arweinyddiaeth feddygol.

Trafodaeth gan Aelodau

17 Ar ôl y cyflwyniadau, gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i roi sylwadau ar sut y gallwn weithio ar y cyd i gryfhau rôl hanfodol arweinyddiaeth wrth gefnogi'r gweithlu a'r amgylcheddau gwaith, yn ogystal â chyflawni ein hagendâu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant:

- **Addysg -** Rhannodd cynrychiolwyr ysgolion meddygol eu huchelgeisiau i wreiddio a datblygu arweinyddiaeth fel rhan o'r cwricwlwm o ddechrau i ddiwedd eu rhaglenni. Nodwyd ganddynt hefyd werth y cwricwlwm FMLM a chyfle i ysgolion meddygol yng Nghymru gydweithio ar ddatblygu arweinyddiaeth feddygol.
- **ED&I** - Bu'r aelodau'n trafod pwysigrwydd ystyried amrywiaeth gynyddol y gweithlu yng Nghymru, a goblygiadau ar gyfer arweinyddiaeth, gan gynnwys dehongliadau a diffiniadau gwahanol o arweinyddiaeth.
- **Timau amlddisgyblaethol** - pwysleisiodd Llywodraeth Cymru bwysigrwydd dilyniant, yn ogystal ag arweinyddiaeth, yn enwedig wrth weithio mewn timau amlddisgyblaethol. Nodwyd y ffocws yn *Cymru Iachach: ein cynllun ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol* ar gydgynhyrchu, a gwerth timau amlddisgyblaethol ac arweinyddiaeth ddosbarthiadol. Trafododd yr Aelodau yr hunanymwybyddiaeth sydd ei angen i fod yn arweinydd tosturiol o ran cydnabod pryd a sut i chwarae eich rhan, sut i gydgynhyrchu, a phryd i fod yn ddilynwr.
- **Ansawdd gofal** - nododd AGIC ac Archwilio Cymru fod gwasanaethau a arweinir yn dda yn darparu gofal o ansawdd da i gleifion. Pan ganfyddir problemau mewn arolygiadau, mae newid cadarnhaol yn digwydd pan fydd arweinwyr yn dosturiol ac yn fwy ymarferol.

18 Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau sut y gall y GMC gefnogi eu gwaith ar arweinyddiaeth:

- **Arfer meddygol da -** cytunodd yr Aelodau fod gan y GMC rôl bwerus wrth osod disgwyliad o ymddygiadau arweinyddiaeth gan feddygon sy'n ymarfer yn y DU. Mae potensial i barhau i gynnwys y rhain mewn hyfforddiant arweinyddiaeth a myfyrio, gan gynnwys gweithio gydag ysgolion meddygol.
- **Allgymorth CMC -** Gofynnodd yr aelodau i ni rannu ein profiadau o weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar ddatblygu arweinyddiaeth a mynegwyd diddordeb yn y ffordd yr oedd hyn yn ehangu ymwybyddiaeth a dysgu i gefnogi llywodraethu a gwaith amlddisgyblaethol.
- **Arweinyddiaeth o ddydd i dydd -** nododd yr Aelodau effaith arweinyddiaeth ar ddiwylliant sefydliadol, a'r angen i gydnabod bod gan bawb ran i'w chwarae o ran bod yn berchen ar ymddygiadau arweinyddiaeth a'u rhoi ar waith.
- **Cofrestr Argyfwng Dros Dro -** Codwyd y mater o leoli meddygon ar y gofrestr argyfwng dros dro; bydd y GMC yn dilyn i fyny gyda Llywodraeth Cymru.

Gweithredoedd

19 Ategodd y Cadeirydd ein hymrwymiad i barhau i gefnogi a gweithio gyda'n rhanddeiliaid yng Nghymru. Byddwn yn:

- Parhau i weithio gydag aelodau UKAF i ymgorffori safonau a llywodraethu'r GMC wrth ddatblygu arweinyddiaeth, myfyrio a hyfforddi. Wrth wneud hyn, hyrwyddwn arweinyddiaeth dosturiol, realistig, a diwylliannau cefnogol
- Gweithio gyda Chyfarwyddwyr Meddygol ac AaGIC i ddatblygu cyfleoedd i gryfhau llywodraethu ar sail safonau a gweithio gyda Byrddau a disgyblaethau eraill
- Gweithio gydag ysgolion meddygol i weld sut y gellir datblygu'r gwaith hwn gyda myfyrwyr hefyd
- Rhoi adborth ar yr hyn yr ydym yn ei ddysgu am arweinyddiaeth dosturiol, yn enwedig o dan bwysau, a chynnwys enghreifftiau o le mae pethau wedi'u gwneud yn dda ac wedi rhoi canlyniadau
- Rhannu ein data a'n canfyddiadau ynghylch y gweithlu meddygol sy'n newid, ac ymgysylltu'n weithredol â rhanddeiliaid ar y goblygiadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu
- Parhau i ddatblygu ein gwaith i gefnogi diwylliannau tecach a chyflwyno rhaglenni anwytho.

Cyfarfod nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf UKAF Cymru yn wyneb yn wyneb ar 20 Ebrill 2023.